Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 1059 (Cy. 247) (C. 59)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

HENEBION HYNAFOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2) 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Hwn yw'r ail orchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2016 i rym ar 1 Ionawr 2022, i'r graddau nad yw'r darpariaethau hynny eisoes mewn grym—

(a) adran 11 (cytundebau partneriaeth dreftadaeth);

(b) adran 28 (cytundebau partneriaeth dreftadaeth).

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn adran 18 (cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol) o Ddeddf 2016 i rym ar 1 Chwefror 2022.

NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") wedi eu dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Y Ddarpariaeth	***Y Dyddiad Cychwyn***	***Rhif O.S.***
Adran 3	31 Mai 2017	O.S. 2017/633 (Cy. 143) (C. 55)
Adran 4	31 Mai 2017	O.S. 2017/633 (Cy. 143) (C. 55)
Adran 5	31 Mai 2017	O.S. 2017/633 (Cy. 143) (C. 55)
Adran 24	31 Mai 2017	O.S. 2017/633 (Cy. 143) (C. 55)
Adran 25	31 Mai 2017	O.S. 2017/633 (Cy. 143) (C. 55)
Adran 26	31 Mai 2017	O.S. 2017/633 (Cy. 143) (C. 55)
Adran 30 (yn rhannol)	4 Mai 2017	O.S. 2017/633 (Cy. 143) (C. 55)
Adran 34	8 Mai 2017	O.S. 2017/633 (Cy. 143) (C. 55)
Adran 35	31 Mai 2017	O.S. 2017/633 (Cy. 143) (C. 55)
Adran 36	31 Mai 2017	O.S. 2017/633 (Cy. 143) (C. 55)
Adran 37	31 Mai 2017	O.S. 2017/633 (Cy. 143) (C. 55)
Atodlen 1	31 Mai 2017	O.S. 2017/633 (Cy. 143) (C. 55)
Atodlen 2	31 Mai 2017	O.S. 2017/633 (Cy. 143) (C. 55)

Gweler adran 41(1) o Ddeddf 2016 ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar y diwrnod y cafodd Deddf 2016 y Cydsyniad Brenhinol. Gweler adran 41(2) ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym 2 fis ar ôl i Ddeddf 2016 gael y Cydsyniad Brenhinol. Cafodd Deddf 2016 y Cydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif 1059 (Cy. 247) (C. 59)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

HENEBION HYNAFOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2) 2021

Gwnaed *16 Medi 2021*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 41(3) a (4)(a) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016(**1**).

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2) 2021.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 2016" yw Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ionawr 2022

2. Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2016 i rym ar 1 Ionawr 2022 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym—

(a) adran 11;

(b) adran 28.

Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 1 Chwefror 2022

3. Daw adran 18 o Ddeddf 2016 i rym ar 1 Chwefror 2022.

(**1**) 2016 dccc 4.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Dawn Bowden
Y Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r
Prif Chwip o dan awdurdod Gweinidog yr Economi,
un o Weinidogion Cymru
16 Medi 2021